



Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Date / Dyddiad: 6 June/Mehefin 2022

Subject / Pwnc: Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i absenoldeb disgyblion a gofrestrwyd mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant. Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ydy'r fframwaith statudol cyfredol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu/WESPs) wedi gwella ers yr argymhellion a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 yn adroddiad yr 'Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg' gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd?

Yn sicr, mae cynnydd wedi'i wneud, ond mae materion sy'n dal heb dderbyn sylw mewn perthynas â rhai meysydd, yn arbennig o ran sicrhau dull seiliedig ar gydraddoldeb wrth gynllunio, gan gynnwys sicrhau system nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

Nid yw diffyg mynediad at gefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ag ADY wedi'i gyfyngu i achosion ynysig mewn rhai ardaloedd; mae'n broblem systemig ledled Cymru. Amlygir hyn gan y bylchau sylweddol yn y gweithlu arbenigol; dangosodd adolygiad o'r gweithlu yn 2018 fod mwyafrif o'r gwasanaethau AAA arbenigol ledled Cymru yn teimlo nad ydynt yn diwallu'r galw presennol am wasanaethau yn Gymraeg, ac mae llawer yn disgwyl na fyddant yn gallu diwallu'r galw yn y dyfodol.

Mae diffyg mynediad at gefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn lleoliadau EOTAS. Dangosodd adolygiad thematig Estyn o'r ddarpariaeth EOTAS yn 2016 fod cyfleoedd eithriadol o gyfyngedig i barhau ag addysg gyfrwng Gymraeg ledled Cymru. Nid yw'r canllawiau a'r Rheoliadau newydd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at leoliadau EOTAS.

Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod datblygiad eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi mecanwaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i ddileu'r prawf 'camau rhesymol' fel bod y ddyletswydd i gynnig Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn absoliwt dros amser. Gwnaeth fy rhagflaenydd y pwynt hwn yn glir yn ei chyflwyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau a'r Rheoliadau drafft, ac wedi hynny croesawodd y lefel uwch o welededd i'r dyletswyddau hyn yn y gofynion terfynol. Mae cyfeiriadaeth glir at ofynion Deddf 2018 yn awr wedi'i chynnwys yn y gofynion ar gyfer paratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Fodd bynnag, mae angen gwirioneddol am gydnabod bod hwn yn fater brys: mae'r cylch cynllunio hwy yn golygu bydd cynlluniau'n cwmpasu degawd, ond mae achosion o'm gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn tystio i effaith methiannau systemig ar blant a phobl ifanc, ac yn amlygu pam mae angen rhoi sylw i'r mater hwn ar frys er mwyn sicrhau nad yw'r sector cyfrwng Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ag ADY bellach.

Isod rwy'n cynnwys rhai enghreifftiau cryno o faterion a dderbyniwyd trwy waith achosion:

- achosion lle mae plant sy'n derbyn addysg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cael asesiadau statudol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, ac mae paneli'n penderfynu bod angen lleoli'r plentyn mewn ysgol Saesneg i ddiwallu eu hanghenion;
- achos person ifanc a gafodd eu haddysg gynradd mewn ysgol Gymraeg, ond a gafodd gyfarwyddyd gan yr awdurdod lleol i drosglwyddo i ysgol uwchradd Saesneg er eu bod yn dymuno parhau mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Ni allai'r awdurdod lleol gefnogi anghenion y person ifanc mewn unrhyw leoliad uwchradd cyfrwng Cymraeg oherwydd bod diffyg darpariaeth arbenigol yn Gymraeg. Ni roddwyd y cyngor hwn i'r teulu ar gychwyn addysg gynradd y plentyn, ond adeg pontio;
- achos plentyn dieiriau o gartref Cymraeg nad oedd yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth gyrraedd oed ysgol statudol gan nad oedd lleoliadau arbenigol ar gael. Roedd hynny'n golygu mai'r unig addysg oedd ar gael i'r plentyn yma oedd addysg mewn iaith wahanol i iaith y cartref;
- achos plentyn B/byddar mewn ysgol gynradd Gymraeg a fu'n derbyn cefnogaeth gan gyfieithydd BSL Cymraeg, a fu'n gorfod trosglwyddo i ysgol gynradd Saesneg pan adawodd yr unigolyn dan sylw eu swydd, gan fod yr awdurdod yn methu llenwi'r swydd â chyfieithydd BSL arall Cymraeg.

Er bod fy nhîm wedi gallu rhoi cyngor i'r teuluoedd hyn, gwaetha'r modd nid oeddent yn gallu datrys yr holl faterion a godwyd oherwydd diffyg darpariaeth a methiannau systemig o ran cynllunio llwybr addysg cydlynus i blant mewn amrywiaeth o wahanol ardaloedd awdurdod lleol. Mae hwn yn fater hawliau dynol pwysfawr. Mae Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA) yn ddigamsyniol yn ei ymrwymiad i gyfle addysgol cyfartal, fel y manylir yn Erthygl 24 o'r Confensiwn, sy'n datgan y dylai'r rhai a lofnododd y Confensiwn sicrhau: "Bod personau ag

anableddau yn gallu cael mynediad i addysg gynradd ac uwchradd ddi-dâl, gynhwysol, o safon, ar sail gyfartal ag eraill yn y cymunedau lle maen nhw'n byw".

Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu

Nid yw'r canllawiau chwaith yn nodi unrhyw fesurau penodol sy'n sicrhau bod polisi lleol o fudd cyfartal i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig neu sy'n dod o deuluoedd incwm isel. Rwy'n cael fy nghalonogi gan y cyngor a gynhwyswyd yn y canllawiau ynghylch yr angen i'r awdurdod gefnogi dysgu fel teulu a chyfleoedd i deuluoedd ddysgu Cymraeg, a fyddai o fudd arbennig i blant a phobl ifanc o gefndir di-Gymraeg.

Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio i strwythuro eu cynlluniau yn cyfeirio at yr angen am sicrhau mynediad cyfartal a sicrhau bod cynlluniau lleol yn cynnwys mecanweithiau digonol i ofalu bod ysgolion yn derbyn disgyblion mewn modd cynhwysfawr, sy'n cynrychioli eu cymuned leol, beth bynnag yw cyfrwng iaith yr ysgol.

Nid yw'r canllawiau'n gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb ar eu cynlluniau, ac mae hynny'n golygu nad oes asesiad o'r effaith fesul nodwedd warchodedig nac yn achos teuluoedd incwm is.

Mae angen parhaus i awdurdodau lleol roi sylw i hyn, ac nid yw'r gofynion yn sicrhau hynny ar hyn o bryd.

I ba raddau mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a gyflwynwyd yn Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050?

Nod canolog Rheoliadau newydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau 2021 sy'n cyd-fynd â nhw yw [Cymraeg 2050](#), sef datblygu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymhellach. Fel yr eglurir yn y strategaeth hon, trochiad Cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio'r newidiadau angenrheidiol i'r sector addysg er mwyn cyflawni nodau a thargedau Cymraeg 2050 fel rhai 'trawsffurfiannol'.

Y mater allweddol yw cyflymder: fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoliadol oedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r Rheoliadau hyn, prif risg mynd ar ôl opsiwn status quo yw nad yw cyflymder presennol y newid mewn addysg gyfrwng Gymraeg yn ddigonol i gyflawni nodau Cymraeg 2050. O ganlyniad, gwnaed dau newid allweddol i reoliadau 2013: yn gyntaf, rhagnodir ystod darged i bob awdurdod lleol yn ganolog, ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried hynny wrth osod eu targedau eu hunain; ac yn ail, mae llai o ofyniad am gyfranogiad cymunedol wrth gynllunio. Yn nhrefniadau 2013 roedd angen asesu'r galw gan rieni ar lefel leol; o dan y trefniadau newydd does dim angen asesu'r galw, ac er bod gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol (er enghraifft, Penaethiaid, Cyrff Llywodraethu ac awdurdodau lleol cymdogol), nid oes gofyn ymgynghori'n gyhoeddus na chyda rhieni, pobl ifanc a phlant.

Rwy'n cefnogi bwriadau'r Llywodraeth i wireddu uchelgais Cymraeg 2050 ac yn cydnabod y dystiolaeth gan y Llywodraeth ac Estyn y bydd hynny'n galw am newidiadau polisi. Fodd bynnag, yn fy marn i nid yw'r rheoliadau a'r canllawiau wedi integreiddio mesurau lliniaru i leihau'r posibilrwydd y gallai'r newidiadau hyn arwain at ddiffyg o ran cyfranogiad lleol mewn penderfyniadau, ac o ganlyniad felly, at anfodlonrwydd neu ddrwgdeimlad posibl ynghylch yr

addysg sy'n cael ei chynnig. Rwyf hefyd o'r farn nad yw'r canllawiau newydd yn gwneud dim i atal parhad system annheg sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ceir bwlch hefyd yn y canllawiau presennol o ran sut gall y system newydd sicrhau bod lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn cynrychioli eu cymunedau lleol i'r un graddau o ran nodweddion gwarchodedig a lefelau incwm, er mwyn sicrhau bod lleoliadau yn y ddwy iaith o fudd i boblogaeth ysgol amrywiol ac yn cyfrannu at gymunedau cynhwysol, integredig.

Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i'r canllawiau ar gategoriâu ysgolion yn ôl darpariaeth gyfrwng Gymraeg, ac ydyn nhw'n cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o gynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a ffrwd ddeuol?

Mae eraill mewn sefyllfa well i ateb y cwestiwn penodol hwn.

Pa heriau sydd o'n blaenau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth gyfrwng Gymraeg, cyn y Bil Addysg Gymraeg a gynigir?

Yn ogystal â'r heriau a amlinellir uchod mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ystyriaethau cydraddoldeb ehangach, mae'r heriau'n cynnwys y tri maes isod:

Cyfranogiad teuluoedd, plant a phobl ifanc

Mae ymgynghori â'r gymuned leol wedi cael lle llai amlwg yn y trefniadau newydd oherwydd bod asesiad rhieni o'r galw wedi cael ei ddileu (Atodlen 1 yn Rheoliadau 2013). Mae hwn yn newid arwyddocaol, ac rwy'n cwestiynu a yw'n gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddor cynhwysiad effeithiol a geir yn y pum ffordd o weithio. Yn flaenorol, mae teuluoedd sy'n pryderu am newidiadau i iaith y ddarpariaeth addysg yn eu hardal wedi cysylltu â'm swyddfa, ac fe allai fod cynnydd yn y pryderon ynghylch hyn wrth i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau.

Mae'n bwysig nad oes gofyniad i gynnwys ymgynghori â phlant a phobl ifanc, sy'n hanfodol i gynnal eu hawl ddynol i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau (Erthygl 12 CCUHP). Dylid nodi hefyd na fyddai ymgynghori'n ehangach yn atal yr awdurdod rhag rhoi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth osod targedau. Yn gyntaf, gall ymgynghori hysbysu'r awdurdod ble dylen nhw osod eu targed, o fewn yr ystod a bennwyd gan y canllawiau. Yn ail, gallai hyn hefyd alluogi galw gan y gymuned i arwain at dargedau mwy uchelgeisiol o ran cynyddu dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Yn olaf, os yw ymgynghori'n dangos bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn anghyson â dymuniadau lleol i raddau helaeth, fe all yr awdurdod barhau i roi sylw dyledus i'r canllawiau, ond gan archwilio targed sy'n adlewyrchiad gwell o ddymuniadau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y gymuned leol, gan ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau dros bellhau oddi wrth yr ystod yn y canllawiau.

Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau greu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, ac mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc o ystod o leoliadau addysg yn ymwneud â datblygu'r cyfleoedd hyn, fel eu bod yn cael eu llywio gan bobl ifanc o wahanol gefndiroedd.

Ystyriaeth bellach o'r cysylltiadau rhwng y ddau sector iaith

Dylai cynllunio a datblygu capasiti fod o fudd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac mae modd gwneud mwy i sicrhau perthnasedd y cynigion hyn i leoliadau sy'n defnyddio'r naill iaith a'r llall. Mae hyn yn cyd-fynd â phrif nod Cymraeg 2050, sef cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n medru defnyddio'r Gymraeg a addysgwyd trwy gyfrwng y Saesneg.

Er bod peth perthnasedd i hyn, gallai'r canllawiau roi mwy o anogaeth i'r awdurdod lleol greu partneriaethau a chyfleoedd i rannu sgiliau rhwng gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a rhai cyfrwng Cymraeg, a rhwng plant a phobl ifanc o ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyfle i ddysgu gan gyfoedion.

Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau ddatblygu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i blant a phobl ifanc o'r ddau fath o leoliad, fel bod modd eu datblygu ar y cyd gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Trafnidiaeth

Mae gweithwyr proffesiynol wedi sôn wrth fy swyddfa mai'r diffyg darpariaeth o ran trafndiaeth i leoliadau cyfrwng Cymraeg ôl-16 ledled Cymru yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran atal pobl ifanc rhag parhau â'u haddysg yn Gymraeg a chyflawni cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ystyried gan y Senedd yn ogystal yn ystod y tymor diwethaf, yn arbennig yng nghyswllt cynigion lleol i gynyddu costau trafndiaeth ôl-16 yn sylweddol, ac effaith hynny ar bobl ifanc sy'n dewis addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfyngiadau ar y dyletswyddau a osodir gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, nad ydynt yn sicrhau darpariaeth y tu hwnt i oed ysgol statudol. Mae'n hen bryd gwneud newidiadau i'r Mesur, ac mae fy swyddfa wedi cyflwyno argymhellion ffurfiol sawl tro i adolygu darpariaethau'r Mesur.

Cynhaliodd y Llywodraeth adolygiad mewn ymateb uniongyrchol i bryderon a godwyd gan fy swyddfa, yn benodol ar ffurf argymhelliad ffurfiol, yn adroddiad blynyddol 2018/19.

Mae mesur interim o'r adolygiad a gyhoeddwyd ddiwedd blwyddyn 21/22 yn nodi'n eglur 'nad yw opsiwn 'gwneud dim' yn cael ei ystyried yn briodol', ac mae'n cyflwyno dau ddewis: symud ymlaen â rhai newidiadau cyfyngedig, neu; datblygu rhaglen ehangach o waith sy'n cwmpasu adolygiad llawn o'r Mesur.

Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd yn y maes polisi hwn. Roedd gwaith ar adolygu'r Mesur wedi cychwyn yn 2020, ond ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu hadolygiad interim tan fis Mawrth 2022. Adeg cyhoeddi'r adolygiad interim, ni chafwyd unrhyw ymrwymiad nac amserlenni gan y Llywodraeth o ran sut roedden nhw'n bwriadu symud y naill na'r llall o'r opsiynau a amlinellwyd ymlaen.

Mae hwn yn faes polisi y mae angen rhoi sylw sylweddol ac amserol iddo os yw pobl ifanc i gael cynnig cyfleoedd cyfartal i barhau â'u haddysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynwyd gan:



Rocio Cifuentes
Comisiynydd Plant Cymru